# ROOS, WILLIAM (1808 - 1878), peintiwr portreadau ac ysgythrwr

**Enw:** William Roos
**Dyddiad geni:** 1808
**Dyddiad marw:** 1878
**Rhiant:** Mary Roose
**Rhiant:** Thomas Roose
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** peintiwr portreadau ac ysgythrwr
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth
**Awdur:** Megan Ellis

Bedyddiwyd ef yn Amlwch 30 Ebrill 1808, yn fab Thomas a Mary Roose, Bodgadfa, Amlwch. Dyfarnwyd ei ddarluniau o ' Farwolaeth Owen Glynd  r,' a ' Marwolaeth Capten Wynn yn Alma,' yn ail-orau yn yr eisteddfod genedlaethol a gynhaliwyd yn Llangollen yn 1858. Yr oedd yn boblogaidd fel peintiwr portreadau ac y mae ei ddarluniau mewn olew o Christmas Evans, John Cox, Thomas Charles, John Jones (Talhaearn), a R. W. Price (Rhiwlas), yn ogystal ag amryw o'i ysgythriadau, yng nghasgliad y Llyfrgell Genedlaethol. Cynigiodd ei ddarlun olew o Christmas Evans i'r Parch. William Roberts ('Nefydd') yn 1870 am ddwy bunt. Bu farw yn Amlwch, 4 Gorffennaf 1878.

## Awdur

**Megan Ellis**, (1906 - 2001)

## Ffynonellau


T. M. Rees, *Welsh painters, engravers and sculptors, 1527–1911* (1912)

*NLW MS* 7165, etc


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: William Roos

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 96282096

Wikidata: Q8017750


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu